[sgroliwch i lawr am y Gymraeg / scroll down for Welsh]

**Liberty Protection Safeguards**

**NEWSLETTER**

1 April 2022

This newsletter provides you with an update on key milestones in our progress to implement the Liberty Protection Safeguards (LPS) in Wales.

## Consultation

The Welsh Government consultation on the LPS draft Regulations for Wales was published on the 17 March. The consultation will last for 16 weeks and the deadline for responses is 7 July 2022.

All of the consultation documents and additional resources to help you discuss and respond to the consultation can be found here:

https://www.gov.wales/liberty-protection-safeguards

https://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

The Minister for Health and Social Services has issued a Written Statement, which can be accessed here:

Written Statement: Welsh Government consultation on Regulations for Wales to support the implementation of the Liberty Protection Safeguards (17 March 2022) | GOV.WALES

Separately, the UK Government is consulting on draft Regulations for England and the draft Code of Practice for England and Wales, for the same 16 week period (ending on 7 July). **STAKEHOLDERS IN WALES WILL ALSO NEED TO RESPOND TO THE UK GOVERNMENT CONSULTATION ON THE DRAFT CODE OF PRACTICE FOR ENGLAND AND WALES.** Details of how you can do that can be found here:

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-law-and-guidance-about-making-your-own-decisions-easy-read

**Stakeholder Meetings**

Since the publication of the consultation, the LPS Implementation Steering Group for Wales (ISGW) has been reconvened on 29 March 2022.

**The ISGW will be meeting again in June to discuss emerging findings before the end of the consultation period. The ISGW will then continue to meet every 6-8 weeks to discuss any key issues or concerns regarding the LPS.**

In addition, we have now put meetings in place to reconvene our existing stakeholder sub-groups for the LPS (16&17 year olds; Monitoring and Reporting; Transition; and Workforce. These meetings are taking place over the next few weeks.

**Live Event**

We also have a Teams Live Event taking place between 1100hrs and 1200hrs on 5 April 2022. This event will cover the key issues around the consultation, plans for engagement and also the Regulations for Wales. The link for you to join us at this event can be found here:

https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ameeting_MjRmOGEyZTUtNzY5NS00YjIwLWE0NzktYmU1MWI4NTE2YWVi%40thread.v2/0?context=%7b%22Tid%22%3a%22a2cc36c5-9280-4ae7-8887-d06dab89216b%22%2c%22Oid%22%3a%2282487b20-c2fb-4d30-9c74-f0c1a1bbe2cf%22%2c%22IsBroadcastMeeting%22%3atrue%7d&btype=a&role=a

**Engagement with people with lived experience**

UK Government colleagues are in the process of planning their engagement with people with lived experience. Their aim is to ensure that attendees of these events are as representative as possible. To achieve this – they are planning to enable people to register their interest in attending these events, rather than just engaging with a select group of people who have been put forward by specific organisations. As these plans are taken forward, we will share further information with stakeholders to ensure those with lived experience from Wales can join the discussion.

The events will focus on people's experiences rather than policy decisions within the Code of Practice and will cover themes including: how to help people with lived experience understand how the LPS authorisation process works; the role of the Appropriate Person and the IMCA; useful information on how to help support people with lived experience; and how to challenge LPS authorisations. The feedback from these sessions will then be recorded and will feed into their government response and inform improvements to LPS guidance.

**Consultation Responses**

Since the publication of our consultation a fortnight ago, we have received 6 responses. We will look forward to hear from more people over the coming weeks.

**Funding**

Welsh Government has issued letters to all health boards and local authorities regarding funding to further support work to address the existing DoLS backlog and to deliver MCA awareness – raising training. They will receive further information in the coming weeks regarding our funding strategy for the implementation of the LPS, and to invite further bids towards implementation activity.

**FAQ – Regular Update**

We are also planning to update the FAQ document published as part of the consultation on a regular basis.

If you have any questions regarding the consultation, please contact the Welsh Government's Mental Health and Vulnerable Groups Mailbox:

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

Best wishes / Cofion gorau,

**Mental Health, Substance Misuse and Vulnerable Groups Division**

**Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid**

**CYLCHLYTHYR**

1 Ebrill 2022

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cerrig milltir allweddol yn ein cynnydd at weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (yr LPS) yng Nghymru.

**Ymgynghoriad**

Mae'n bleser gennym gyhoeddi fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft yr LPS i Gymru wedi ei gyhoeddi. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau am 16 wythnos a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 7 Gorffennaf 2022.

Mae modd canfod yr holl ddogfennau ymgynghori - a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'ch helpu chi i drafod ac ymateb i'r ymgynghoriad - yma:

https://www.llyw.cymru/diogeliadau-amddiffyn-rhyddid

https://www.gov.wales/liberty-protection-safeguards

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig ar yr LPS ac mae ar gael yma:

Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau i Gymru i helpu i weithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (17 Mawrth 2022) | LLYW.CYMRU

Ar wahân, mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar reoliadau drafft ar gyfer Lloegr a'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd yr ymgynghoriadau yma yn parhau am yr un cyfnod o 16 wythnos (gan ddod i ben ar 7 Gorffennaf). **BYDD ANGEN I RANDDEILIAID YNG NGHYMRU HEFYD YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH Y DU AR Y COD YMARFER DRAFFT AR GYFER CYMRU A LLOEGR**. Mae'r wybodaeth ar sut i wneud hynny ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-mca-code-of-practice-and-implementation-of-the-lps

https://www.gov.uk/government/consultations/changes-to-the-law-and-guidance-about-making-your-own-decisions-easy-read

**Cyfarfodydd Rhanddeiliaid**

Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad, mae Grŵp Llywio Gweithredu LPS Cymru (ISGW) wedi'i ailymgynull ar 29 Mawrth 2022.

**Bydd ISGW yn cyfarfod eto ym mis Mehefin i drafod y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori. Wedi’r cyfnod hwn bydd yr ISGW yn parhau i gyfarfod bob 6-8 wythnos i drafod unrhyw faterion neu bryderon allweddol sy'n ymwneud â'r LPS.**

Yn ogystal, rydym bellach wedi trefnu dyddiadau ar gyfer ailymgynull cyfarfodydd yr is-grwpiau rhanddeiliaid yr LPS (pobl ifanc 16 a 17 oed; Monitro ac Adrodd; Pontio; a'r Gweithlu. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Digwyddiad Byw**

Mae gennym hefyd Ddigwyddiad Byw dros Teams fydd yn digwydd rhwng 11yb a 12yb ar 5 Ebrill 2022. Bydd y digwyddiad hwn yn ymdrin â'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad, y cynlluniau ar gyfer ymgysylltu, yn ogystal â’r Rheoliadau ar gyfer Cymru. Dyma’r ddolen i chi ymuno â ni yn y digwyddiad hwn:

https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ameeting_MjRmOGEyZTUtNzY5NS00YjIwLWE0NzktYmU1MWI4NTE2YWVi%40thread.v2/0?context=%7b%22Tid%22%3a%22a2cc36c5-9280-4ae7-8887-d06dab89216b%22%2c%22Oid%22%3a%2282487b20-c2fb-4d30-9c74-f0c1a1bbe2cf%22%2c%22IsBroadcastMeeting%22%3atrue%7d&btype=a&role=a

**Ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol**

Mae cydweithwyr yn Llywodraeth y DU wrthi'n cynllunio eu hymgysylltiad â phobl sydd â phrofiad personol o’r maes hwn. Eu nod yw sicrhau y bydd y rhai sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn mor gynrychioliadol â phosibl. Er mwyn cyflawni hyn, maent yn bwriadu rhoi cyfle i bobl fynegi eu diddordeb mewn mynychu'r digwyddiadau yma yn hytrach nac ond ymgysylltu â grŵp o bobl sydd wedi eu dethol gan sefydliadau penodol. Wrth i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y gall y rhai sydd â phrofiad personol o Gymru ymuno â'r drafodaeth.

Bydd y digwyddiadau yma’n canolbwyntio ar brofiadau pobl yn hytrach na phenderfyniadau polisi o fewn y Cod Ymarfer a byddant yn ystyried themâu megis: sut i helpu pobl sydd â phrofiad byw i ddeall y broses awdurdodi’r LPS; rôl y Person Priodol a'r IMCA; gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i gefnogi pobl sydd â phrofiad personol; a sut i herio awdurdodiadau’r LPS. Bydd yr adborth o'r sesiynau yma yn cael ei gofnodi a bydd yn cyfrannu at ymateb y llywodraeth ac yn llywio gwelliannau i ganllawiau’r LPS.

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Ers cyhoeddi ein hymgynghoriad bythefnos yn ôl, rydym wedi derbyn chwe ymateb. Edrychwn ymlaen at glywed gan fwy o bobl dros yr wythnosau nesaf.

**Cyllid**

Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr at bob bwrdd iechyd ac awdurdod lleol am y cyllid sydd ar gael i gefnogi gwaith pellach i fynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol o waith DoLS ac i ddarparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o'r MCA. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn ystod yr wythnosau

nesaf am ein strategaeth ariannu ar gyfer gweithredu'r LPS, ac i wahodd ceisiadau pellach ar weithgarwch gweithredu.

**Cwestiynau Cyffredin – Diweddariad Rheolaidd**

Rydym hefyd yn bwriadu diweddaru y ddogfen Cwestiynau Cyffredin (sydd wedi ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad) yn rheolaidd.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am yr ymgynghoriad, cysylltwch â blwch post Grwpiau Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Llywodraeth Cymru:

MentalHealthandVulnerableGroups@gov.wales

Cofion gorau,

**Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl, Polisi Camddefnyddio Sylweddau ac Agored i Niwed**